



Hydref 2013

Adroddiadau newydd

- Investigating the abundance, distribution and habitat use of juvenile *Cancer pagurus* (L.) of the intertidal zone around Anglesey and Llŷn Peninsula, North Wales (UK). MSc thesis. Adroddiad Rhif 29 - Hydref 2013
- Taxonomic and functional recovery of epifauna after the permanent closure of an area of the Cardigan Bay Special Area of Conservation (SAC), Wales, to a scallop dredge fishery. Traethawd hir MSc. Adroddiad Rhif 28 – Mis Medi 2013
- Variations in the abundance and spatial distribution of *Palaemon serratus* (Decapoda: Palaemonidae) in the littoral zone of South Wales. Traethawd hir MSc. Adroddiad Rhif 27 – Mis Medi 2013

Yn dod yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf ceir adroddiadau ar gyflenwad crancod ifanc, maint cimwch pan fo'n aeddfed a physgota draenogiaid y môr.

Cyllid ar gyfer y prosiect

Efallai y byddwch yn falch o wybod ein bod wedi cael digon o arian i barhau ein prosiect tan ddiwedd Mai 2015. Er y bydd ein cyllideb yn sylweddol llai nag roeddem wedi ei obeithio, mae digon o arian i gyflogi pob un o'n wyth staff amser llawn ar hyd cyfnod y prosiect. Byddwn yn parhau i allu cyflawni'r rhan fwyaf o amcanion y prosiect ond gyda pheth cwtogi ar y defnydd o'r llong, prynu offer a chytundebau allanol. Felly o leiaf am y 19 mis nesaf byddwn yn ymgymryd ag ymchwil y gobeithiwn fydd yn cyfrannu at gael pysgodfeydd cynaliadwy a phroffidiol yng Nghymru ymhell i'r dyfodol.

Holiadur pysgotwyr

Mae holiadur gwybodaeth y pysgotwyr yn mynd rhagddo gyda 14 holiadur wedi'u cwblhau. Rydym yn ceisio amserlennu cyfweiliadau pysgotwyr, felly os oes gennych ddi-ddordeb cysylltwch â Julia os gwelwch yn dda (j.pantin@bangor.ac.uk). ***Mae'r holiadur hwn yn hanfodol bwysig gan y bydd yn canfod ardaloedd o'r arfordir sydd bwysicaf i bysgotwyr, bydd yn darparu portffolio o dystiolaeth annibynnol i'r diwydiant pysgota i'w ddefnyddio wrth symud ymlaen, a bydd yn cynorthwyo'n dealltwriaeth o fioleg rhywogaethau masnachol pwysig yng Nghymru.***

Cyfweiliadau Economaidd


Mae'r cyfweiliadau economaidd hefyd ar eu ffordd gyda 18 wedi'u cwblhau hyd yn hyn o gwmpas Cymru. Diolch i'r pysgotwyr hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i helpu. Mae angen i ni gynyddu maint ein sampl! ***Dewch yn rhan o hyn os gwelwch yn dda a chysylltwch â g.cambie@bangor.ac.uk, 01248 382615. Cofiwch fod yr arolwg hwn yn bwysig am y bydd yn mynd i'r afael â'r tanbrisiu cyfredol o werth pysgodfeydd masnachol i economi Cymru ac felly codi materion pysgodfeydd yn uwch ar yr agenda.***



Cregyn Bylchog

Trial dwysedd pysgota

Cafodd ein cais i ymgymryd ag astudiaeth dwyster pysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a CNC. Byddai'r astudiaeth yn archwilio effeithiau gwahanol ddwyyster pysgota tynrwyd cregyn bylchog a chyfraddau adfer ffawna dyfnforol ar wely'r môr. I edrych ar y cynllun ewch i'n gwefan a dilynwch y ddolen "newyddion diweddaraf" ar y dudalen gartref (<http://fisheries-conservation.bangor.ac.uk/>)




Ardal arbrofol a'r dylunio arfaethedig. Mae triniaethau ar hap. Canolbwyntir y lleoliadau yn y de, yn agosach at yr arfordir, i ganiatáu cychod llai i gymryd rhan yn yr arbrawf ac i arbed gogwydd posibl yn y canlyniadau os oedd rhaniad i fod rhwng cychod bach gyda'r glannau/llongau mawr ar y môr. Yn y ffordd hon disgwylir y bydd cychod llai yn gallu pysgota pob safle. Mae'r allwedd yn cyfeirio at y nifer o weithiau y caiff yr ardal ei ysgubo, gyda 0.25 yn cyfeirio at chwarter yr ardal sy'n cael ei ysgubo, 1 yn ardal yn cael ei hysgubo unwaith yn llawn ac 8 yn ardal sy'n cael ei hysgubo 8 waith.

Stoc Cregyn Bylchog ym Mae Tremadog

Cynlluniwyd arolwg cregyn bylchog arall ym Mae Tremadog. Roedd 3 amcan i'r arolwg hwn:

- 1) Cymharu amcangyfrifon dwyster cregyn bylchog a gafwyd gan fideos â "gwir ddwyster" a amcangyfrifwyd gan blymwyr mewn gwahanol fathau o gynefinoedd.
- 2) Asesu statws stoc cregyn bylchog gyda'r glannau ym Mae Tremadog
- 3) Casglu gwybodaeth am y cynefin

Gellir cynnal yr arolwg hwn yn ystod yr wythnosau sy'n dod neu yn ystod y gwanwyn/haf 2014, yn dibynnu ar y tywydd ac argaeledd y gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.



Map o safleoedd a'r mathau o gynefinoedd a ddisgwyllir gan HabMap. Bydd pob safle'n cael ei arolygu gan fideos a detholiad o'u plith gan blymwyr (yn ddelfrydol lleiafswm o 8 safle, 2 fesul math o gynefin)



Cramenogion

Arolwg o gramenogion ifanc



Cimwch ifanc (*Homarus gammarus*) mewn cewyll, y cewyll gorgimychiaid siâp D a ddefnyddiwyd, a Gemma yn cymryd darlleniad helltni

Buom yn defnyddio cewyll gorgimychiaid siâp D i ddal crancod ifanc a chimychiaid. Mae'r tywydd gwael yn ystod y mis hwn wedi golygu bod mynd i'r môr wedi bod yn fwy anodd nag yr oedd yn ystod yr haf godidog! Byddwn yn dadansoddi'n fuan y data a gasglwyd drwy'r haf a bydd gennym syniad da ar sut i symud y prosiect yn ei flaen ar gyfer yr haf nesaf!

Natalie Hold n.hold@bangor.ac.uk : 07903 762466


Jodie Haig j.haig@bangor.ac.uk : 07593 635348

Tagio Cimwch



Mae tagio cimychiaid yn parhau. Rydym yn aros am drwydded gan Lywodraeth Cymru i ddod â rhai cimychiaid bach i'n tanciau ym Mhorthaethwy i edrych ar effaith tagio ar y cimychiaid llai yma. O'n profion gyda cimychiaid mwy, bu goroesi yn 100% dros 3 mis. Rydym yn ail-ddal cimychiaid bychain wedi eu tagio ac felly nid ydym yn disgwyl i oroesi fod yn broblem. Cafodd cimychiaid eu tagio ar Benrhyn Llŷn, Bae Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r ail-ddal ar y cychwyn yn dangos fod y cimychiaid yn tueddu i aros yn lleol iawn.

Samplo môr



Mesuriadau ar y dec, a'r system camera ar y cwch rydym yn gobeithio ei ddatblygu

Mae'r system camera ar y cwch i gasglu data pysgodfeydd o'r diwydiant cewyll yn parhau i fynd drwy broses datblygu a gwella. Rydym yn dal i chwilio am arian ychwanegol i droi'r syniad dichonadwy hwn i fod yn gynnyrch defnyddiol ac ymarferol. Rydym yn anelu at gael cynnyrch gwyb wedi'i ddatblygu ac yn cael ei ddefnyddio erbyn diwedd y prosiect. Yn y cyfamser mae angen i ni gael data man cychwyn ar statws stoc crancod a chimychiaid yng Nghymru. Bwriadwn wneud hyn drwy dreulio diwrnod ar y môr mewn pedair cwch unwaith y mis. Gallwn gasglu data maint, rhyw, aeddfedrwydd, fesul dalfa ac ymdrech. Gyda dwy o'r systemau camera sylfaenol hefyd yn gweithredu gallwn gymharu'r data a gawn o'r fideos â'r rhai gawsom o fod ar y môr. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddilysu defnyddioldeb y system fideo. Roeddem yn gobeithio dechrau hyn gyda'r casgliad data môr ym mis Hydref, ond hyd yn hyn mae'r tywydd gwael wedi gohirio'n ymdrechion.

Cranc coch



Cranc coch ifanc, *Cancer pagurus*

Bu'r myfyrwyr sy'n astudio am eu graddau Meistr yn monitro poblogaethau crancod ifanc coch o arfordiroedd Ynys Môn a Sir Benfro drwy'r haf ac mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan!

Rydym yn cynllunio ymgymryd ag astudiaeth “Maint pan maent yn Aeddfed” drwy Gymru gyfan. Byddwn yn penderfynu os oes gwahaniaethau rhanbarthol mewn maint pan maent yn aeddfedu drwy asesu cyflwr atgennedlu crancod gwryw a benyw o’r gogledd, canol a de Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn aros am drwyddedau (i gymryd anifeiliaid sy’n rhy fach i’w dal) i gael eu caniatáu cyn y gallwn ddechrau ar yr astudiaeth newydd gyffrous hon.

Gorgimychiaid



Palaemon serratus, yn y labordy

Bu myfyrwyr gradd Meistr yn samplo poblogaethau gorgimychiaid drwy’r haf o gwmpas arfordiroedd Ynys Môn a Sir Benfro a bydd yr adroddiad ar gael yn fuan. Mae un adroddiad o Sir Benfro eisoes ar ein gwefan.

Bydd Kayla a Niamh yn dechrau gwaith gyda Chymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion ar brosiect sydd yn canolbwyntio ar ennill Achrediad Cyngor Stiwardiaeth Morol ar gyfer Pysgodfa *Palaemon* Bae Ceredigion (CBFA). Gwnaeth y ddwy foneddiges hyn waith eithriadol ar gimychiaid gyda Natalie Hold dros yr haf a byddant nawr yn defnyddio eu sgiliau ar y bysgodfa gorgimychiaid. Bydd y CBFA yn gwneud yr aelodau i gyd yn ymwybodol o gyfarfod cyflwyno i drafod dyfodol pysgota gorgimychiaid. Os nad ydych yn aelod o CBFA ac yn dymuno bod â rhan yn y prosiect, cysylltwch â Dr Jodie Haig j.haig@bangor.ac.uk. Am ychydig iawn o gyfraniad gallwch gyfrannu rhai samplau gwyddonol hanfodol i astudiaeth Cymru o gorgimychiaid.



Pysgod adeiniog

Pysgodfa Cathod Môr

Rydym wedi dechrau casglu data ar y cathod môr pigog o arolygon pysgodfa annibynnol o amgylch Gogledd Cymru. Gobeithiwn gasglu digon o ddata i’w gymharu ag astudiaethau blaenorol yn yr ardal hon, i ddarparu arwydd o gyflwr y stoc.

Mynegai draenogiaid môr ifanc



Draenogiad y môr ifanc

Daw prosiect recriwtio draenogiaid môr i ben ddiwedd y mis hwn. Buom allan yn chwilio am y dylifiad o ddraenogiaid môr ifanc (< grŵp blwydd oed) oedd yn dod i fewn i'r aberoedd o amgylch Cymru. Mae hyn i asesu cyflenwad draenogiaid y môr ifanc yn yr ardal fel y gallwn ddechrau datblygu mynegai draenogiaid môr ifanc. Rydym yn samplo drwy ddefnyddio rhwyd Seine rhwyll micro. Rydym wedi rhwydo yn Aber Conwy, Bae'r Foryd (Caernarfon), Malltraeth, Porthmadog, y Friog, Tywyn, Aberdyfi (2 safle), Aberdaugleddau, Bae Abertawe a Lacharn. Yr unig ddraenogiaid môr ifanc y daethom o hyd iddynt oedd yn y de (Bae Abertawe a Lacharn) sy'n awgrymu fod 2013 wedi bod yn flwyddyn wael am rai ifanc.

Pysgotwyr a gwerthwyr pysgod



Ceudod torrol draenogiad môr yn dangos y gonadau - benyw yw hon

Rydym wedi parhau i gasglu data oddi wrth pysgotwyr a gwerthwyr pysgod i gasglu samplau gonadau y draenogiaid môr, i asesu aeddfedrwydd a'r gymhareb gwryw: benyw o ddraenogiaid môr. Dadansoddwyd dros 1000 o samplau hyd yn hyn.

Llawer o ddiolch i bob un o'r pysgotwyr a gymerodd ran ac i'r gwerthwyr rydym wedi gweithio gyda hwy hyd yma; Tucker's Fresh Fish a Coakely-Greene Fishmongers ym Marchnad Abertawe, Gills's Plaice yn Nhywyn, Chris Davies o Welsh Seafoods yn Nociâu Aberdaugleddau, Owen Davies o Channel Fish ym Mhorth Tywyn, Debbie a Paul o Swansea Fish, a phob un o'r bobl garedig o Mermaids Seafoods in Llandudno.

Am bob prosiect a gysylltir â draenogiaid môr cysylltwch â: g.cambie@bangor.ac.uk

Y gragen foch fwyaf



Cafodd y cregyn moch mwyaf hyn eu tagio â glud, clymwyr sip a bandiau elastig i weld pa un sydd fwyaf llwyddiannus

Ar hyn o bryd rydym yn ymgymryd ag astudiaeth dargadw tag i benderfynu ar y ffordd orau i dagio'r cregyn moch mwyaf. Caiff cregyn moch mwyaf eu tagio â glud sy'n sychu'n gyflym, dau fath gwahanol o fandiau elastig a hefyd clymwyr sip. Gadawn i chi wybod beth yw'r dull gorau o dagio'r malwod môr llithrig, llysnafeddog yma!!

Os ydych yn bysgotwr cregyn moch mwyaf ac yn dymuno bod yn rhan o astudiaeth tagio'r gragen foch fwyaf / astudiaeth ail-ddal yr haf nesaf anfonwch e-bost i Jodie: j.haig@bangor.ac.uk



Y Gronfa Pysgodfeydd Ewropeaidd:
Buddsoddi mewn Pysgodfeydd Cynaliadwy
European Fisheries Fund:
Investing in Sustainable Fisheries



Llywodraeth Cymru
Welsh Government